# Gweithio tuag at Eglwys Fethodistaidd gynhwysol

## Canllaw ar gyfer y Strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad



Yr Eglwys **Fethodistaidd**

Rhan 1

# Gweithio tuag at Eglwys Fethodistaidd gwbl gynhwysol

## Crynodeb o'r Strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad

### Ystyr bod yn Gristion, yn ôl y strategaeth hon, yw:

- gogoneddu Duw a greodd pob unigolyn ar ei lun a'i ddelw ei hun
- bod yn ddisgyblion i'r Iesu a fyddai'n trin pob unigolyn ag urddas
- llawenhau yn noniau'r Ysbryd Glân a roddir i'r holl bobl

Cafodd adroddiad newydd ei fabwysiadu gan y Gynhadledd Fethodistaidd 2021 sy'n egluro pam mae hyn mor bwysig ac yn manylu ar pam mae hi'n hanfodol i ddysgu oddi wrth ein gilydd er mwyn i ni adnabod presenoldeb Duw yn llawnach yn ein bywyd gyda'n gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhai camau sy'n orfodol hefyd ar gyfer eglwysi lleol, cylchdeithiau, taleithiau, a'r Cyngor Methodistaidd. Bydd y rhain yn ein helpu ni i fyw fel pobl sydd â thraddodiad o gyfiawnder a pharch at yr holl bobl.

Rydym ni wedi ymroi i fod yn eglwys sy'n blaenoriaethu cyfiawnder ac urddas i bawb, yn arbennig y rhai sydd wedi cael eu hallgáu o'r blaen, ac sy'n cydsefyll mewn cydlyniad gweithredol â nhw.

Fe welwch chi'r adroddiad llawn yn y fan hon:
**www.methodist.org.uk/inclusive-mc-strategy**

### Ystyr hyn yw bod yn eglwys sydd:

- yn ymwrthod â gwahaniaethu o bob math
- yn dathlu amrywiaeth fawr y ddynoliaeth yn cydnabod y crewyd yr *holl* bobloedd ar ddelw Duw
- gyda strwythurau a phrosesau sy'n caniatáu i bawb fod â rhan lawn
- ag arweinyddiaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein haelodaeth ni
- yn cynnig mannau diogel i'r cyhoedd, ac i'r aelodau, ar gyfer cwrdd ag amrywiaeth o bobl, gan fod yn gwbl onest ynddyn nhw eu hunain
- yn sicrhau bod eu harweinwyr nhw wedi cael eu hyfforddi i ddeall materion o ran amrywiaeth ac allgáu
- yn gwrando, yn cymryd o ddifrif, ac yn gweithredu ar unrhyw adroddiadau o wahaniaethu neu ragfarn

### GWEDDI

**Dduw, rydym ni'n dod atat ti ac rwyt ti'n ein croesawu ni.
Mae rhai ohonom ni'n flinedig ac eraill yn llawn egni.
Mae dy gariad yn ein cynnal ni i gyd.**

**Dduw, rydym ni'n dod atat ti ac rwyt ti'n ein croesawu ni.
Mae gan rai ohonom ni amheuon, ac eraill yn llawn sicrwydd.
Mae dy gariad yn ein hysbrydoli ni i gyd.**

**Dduw, rydym ni'n dod atat ti ac rwyt ti'n ein croesawu ni.
Mae rhai ohonom ni'n dawel, ac eraill yn ysu â phryder.
Mae dy gariad yn ein tawelu ni i gyd.**

**Dduw, rydym ni'n dod atat ti ac rwyt ti'n ein croesawu ni.
Mae rhai ohonom ni'n gyfarwydd â llawenydd, ac eraill â phoen.
Mae dy gariad yn ymestyn atom ni bob un.**

Dduw, rydym ni'n dod atat ti ac rwyt ti'n ein croesawu ni.
Cawsom ein llunio bob yr un ohonom yn rhyfeddol ac ofnadwy. Pob un ohonom ni ar dy lun a'th ddelw di.
**Pob un ohonom ni'n gogoneddu dy gariad di!**
Diolch i ti Dduw. Amen.

**Parchg Liam**

Rhan 2

# Rhoi sail Ysgrythurol i'r adroddiad hwn

- Er bod y Beibl yn cynnwys straeon am wahaniaethu yn erbyn pobl (straeon am gaethiwed, trais rhywiol, a chyfystyru anabledd â phechod) fe geir edau aur fwy cyffredin a chyfoethog drwy'r Ysgrythurau, sy'n herio'r straeon hyn ac yn cyfeirio at Dduw y mae ei gariad yn hollgyffredinol (Genesis 1:26-27, Eseia 2:1-4, Luc 10:25-37).

- Amlygodd Iesu gariad Duw wrth fod yn agored i bobl o bob math, yn cynnwys ymestyn at y rhai a oedd ar yr ymylon yn yr oes honno, ac fe gafodd ei feirniadu yn aml am fod yng nghwmni rhai yr oedd pobl eraill o'r farn y dylai ef gadw pellter oddi wrthyn nhw. Eto i gyd, yn Iesu Grist, fe ddaeth dieithriaid yn gyfeillion (Actau 2:42-47).

- Roedd y Cristnogion cynnar yn deall bod Ysbryd Sanctaidd Duw yn chwalu hen derfynau ac ymraniadau (Actau 10). Roedden nhw'n rhannu dealltwriaeth newydd o amrywiaeth rhoddion Duw yn eu bywydau nhw ac roedd yr amrywiaeth hon yn cael ei hystyried yn hanfodol wrth adeiladu'r gymuned Gristnogol gynnar – Corff Crist y mae pob rhan o'r corff yn ddibynnol ar y rhannau eraill (1 Corinthiaid 12:12-31).

- Mae llawer o'r llythyrau a ysgrifennodd Paul ac eraill at yr Eglwys Fore yn sôn am bwysigrwydd bod â chydberthynas dda ac iach yn y gymuned Gristnogol (Rhufeiniaid). Os oedd y Cristnogion am fod yn arwydd o deyrnas Dduw ac am adlewyrchu cariad diamod Duw, roedd yn rhaid iddyn nhw fod yn esiamplau byw o orchymyn newydd Crist pan ddywedodd Iesu wrth ei ddilynwyr y dylen nhw "garu ei gilydd ... fel y cerais i chwi." (Ioan 13:34).

## GWEDDI

**Dduw pawb, mawl a diolch a fo i ti yn Iesu, yr hwn yr ymwelodd bugeiliaid ac estroniaid ag ef ar ei enedigaeth,**
**a alwodd bysgotwyr a chasglwyr trethi i fod yn ddisgyblion iddo,**
**a'n dysgodd ni i beidio â barnu eraill,**
**a iachaodd was canwriad Rhufeinig a merch Cananëes,**
**a oedd yn fodlon i'w gyfrif yn un a fyddai'n bwyta ac yn yfed gyda phechaduriaid,**
**a heriai arweinyddion crefyddol am esgeuluso cyfiawnder, trugaredd, a ffydd,**
**sy'n rhoi esiampl i ni o genhadaeth a gweinidogaeth gynhwysol yr efengyl.**
**Glanha ni â'th Ysbryd Glân, ac wrth i ni ymwrthod â gwahaniaethu a'i wrthsefyll, boed i ni'th garu a'th wasanaethu di wrth garu a gwasanaethu pawb.**
**Yn enw Iesu. Amen.**

**Y Parchg Mark**

Y weddi hon sydd wedi ysbrydoli'r ymarfer ar gyfer astudiaeth Feiblaidd ar dudalen 11.

Rhan 3

# Pam mae angen y strategaeth hon ar yr Eglwys Fethodistaidd?

"Sawl blwyddyn ar ôl i mi glywed nad oeddwn i'n addas ar gyfer y swydd – ac wedi i mi holi fy hunan am achos hynny – fe wnes i fagu digon o hyder i godi'r mater gyda phobl eraill. Dyna pryd y gwnes i sylweddoli bod yr ymdeimlad yn treiddio trwy'r system gyfan. Nid oedd neb 'fel y fi' yn cael ei ystyried yn addas."

"Roedd rhywun yn fy llygadu i bob amser, rhywun yn nodi'r hyn yr wyf i'n ei wisgo neu sut olwg sydd arnaf i, ac er fy mod i'n ceisio osgoi gwneud hynny, rwy'n teimlo pan fyddaf i'n siarad mewn cyngor eglwys neu unrhyw gyfarfod ynglŷn â'r eglwys, mae pobl yn edrych ar eu hesgidiau nhw, neu'n rhoi ochenaid, neu'n crechwenu yn nawddoglyd, yn ymdrechu i oddef 'caniatáu' i mi siarad. Ond nid oes neb yn gwrando ar yr hyn yr wyf i'n ei ddweud ... Pa mor falch fyddwn i o allu siarad heb ofni fy mod i'n cynhyrfu'r dyfroedd. Pa mor braf fyddai peidio â theimlo mor unig yn yr eglwys."

Am fwy o ddyfyniadau a storïau edrychwch ar y Strategaeth lawn yn **www.methodist.org.uk/inclusive-mc-strategy** neu'r Pecyn Cymorth **www.methodist.org.uk/for-churches/guidance-for-churches/equality-diversity-and-inclusion/edi-toolkit/**

Mae ein galwad ni i fod yn Fethodistiaid wedi cynnwys galwad barhaus i gyfiawnder cymdeithasol erioed, ond rydym ni'n aml wedi methu gwireddu hynny am ein bod ni wedi gwrthod pobl ar sail rhagfarn. Fe allai'r rhain fod yn bobl sy'n byw gydag anabledd, neu o ethnigrwydd, rhywioldeb, oedran, rhywedd, neu sydd â phrofiad bywyd sy'n wahanol i ni. Fe allem ni allgáu rhai yn fwriadol weithiau am un o'r rhesymau hyn oherwydd rhagfarn sydd gennym ni. Fe allem ni fod heb wybod am ein rhagfarn ni weithiau, ac nid ydym ni'n sylweddoli cymaint o effaith y mae ein geiriau a'n hymddygiad ni'n eu cael ar rywun arall. Eto i gyd, mae'r gred fod pob bod dynol yn wrthrych i gariad Duw ac wedi ei lunio ar ei ddelw yn hanfodol i'n bywyd Cristnogol ni. Fe ddylai ein hymddygiad ni dystiolaethu i'r hyn yr ydym ni'n ei gredu.

## GWEDDÏAU

**Arglwydd, rydym ni'n troi atat ti pan fo ein calonnau ni'n llawn gofidiau a'n beichiau ni'n drwm.**
**Rwyt ti'n rhoi gallu i ni na cheir ei debyg yn y byd creëdig. Rwyt ti'n rhoi llawenydd yn nyfnder ein heneidiau ni.**
**Rwyt ti'n rhoi lle i ni nad ydym ni'n wrthodedig ynddo: lle mae dy Ysbryd yn dod â bywyd newydd a doethineb wir; lle'r ydym ni'n teimlo cynhesrwydd, diogelwch, a chariad.**
**Rho gymorth i ni ddod â'th gynwysoldeb di i'r byd a mynegi dy gariad a'th drugaredd. Amen.**

Chito

**Mae hi'n hawdd, Arglwydd, i ymddwyn yn ddigroeso;**
**A dymuno cwmni rhai tebyg i ni yn unig; rhai sy'n siarad, meddwl, ac ymddwyn fel ninnau.**
**Mae hi'n anodd rhoi croeso i rai sy'n ymddwyn yn od, rhai sy'n herio ein hen syniadau ni ac mae hi'n anodd eu hoffi nhw. Eto, dy alwad di yw caru pawb. Maddau i ni, oherwydd y mae angen y newyddion da am dy gariad radical di arnom ninnau hefyd, fel ar y rhai a wrthodir gennym.**
**Yn enw Crist. Amen.**

James

Rhan 4

# Methodistiaeth heddiw

Heddiw, mae'r Eglwys Fethodistaidd yn parhau i ystyried mai Duw sydd bob amser wrth hanfod y diwylliant hwn o ofal, cynwysoldeb a chydberthynas. Hon yw'r ddisgyblaeth y cawsom ein galw iddi, wrth i ni ymateb i gariad Duw yn Iesu Grist.

Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn dathlu'r amrywiaeth ym mywydau a phrofiadau pobl yn ei threfniadaeth. Rydym ni i gyd yn dibynnu ar ein gilydd ac mae ein cydberthynas ni'n golygu bod ymdeimlad o berthyn wrth galon bywyd yr eglwys. Dyma'r hyn yr ydym ni'n ei alw yn enwadaeth – ffordd o drefnu'r Eglwys yn genedlaethol sy'n pwysleisio nad yw unrhyw eglwys leol ar ei phen ei hun, ac ni all hi fodoli felly. Fe wnawn ni benderfyniadau ar y cyd, yn rhannu cyfrifoldeb, yn ysbryd trafod a pherthyn, gan wneud yn siŵr ein bod ni'n siarad, ac yn gwrando ar ein gilydd.

Mae'r syniad bod rhad ras Duw ar gyfer pawb wrth galon Methodistiaeth. Mae lletygarwch, bod yn agored, ac estyn croeso i gyd yn hanfodol i Fethodistiaeth ac yn allweddol i ddangos bod gras a chariad Duw ar gyfer pawb. Mae'r croeso hwn, er hynny, ar gyfer pob un ohonom ni ac mae angen iddo gynnig cyfleoedd i bob unigolyn fod â rhan lawn mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae syniad John Wesley o gariad perffaith yn ein harwain ni i geisio cydberthynas sy'n cynnwys gwerthfawrogi ein gilydd yn well, wrth i ni ddarganfod sut mae Duw yn gweithio ynom ni a thrwom ni i gyd.

Mae hi'n bwysig i ni ddweud hefyd nad oes yna unrhyw gymuned Gristnogol berffaith wedi bod erioed. Mae ymraniadau, gwahaniaethu, a detholusrwydd i gyd wedi bod â rhan ym mywyd yr Eglwys hyd y dydd heddiw. Yn drist iawn, fe aeth achosion o wahaniaethu, rheolaeth drwy orfodaeth, a chamddefnyddio awdurdod heb eu herio. Mae rhai o'r storïau yn yr adroddiad llawn yn dangos Eglwys sy'n gyndyn iawn o ufuddhau i orchymyn newydd Crist a heb fod yn Gorff Crist sy'n dibynnu ar yr holl aelodau yn ôl ewyllys Duw i'r Eglwys. Rydym ni'n gwybod, o fewn yr Eglwys, nad yw rhai pobl yn cael eu derbyn, na'u parchu, na'u trin yn gyfartal.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn herio'r Eglwys i gydnabod ac edifarhau am y ffyrdd yr ydym ni wedi methu o ran Ein Galwad. Yn anochel, mae'n rhaid i hyn arwain at newid.

Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi ei galw i ymgysylltu yn gadarnhaol gyda'r gymdeithas yn fwy eang a gweithio gyda'r cymunedau lleol o'n cwmpas ni. I lawer ohonom ni, bydd gwaith a phrofiadau gwirfoddol y tu hwnt i'n heglwysi lleol yn rhoi cymorth i ni helpu ein gilydd gyda chydberthynas weddaidd yn yr Eglwys.

Wrth i ni wireddu perthynas gadarnhaol ymysg y gwahaniaethau yn yr Eglwys fe fyddwn ni'n dysgu mwy am y byd o'n cwmpas ni hefyd. Fe fydd yr hyn a ddysgwn ni'n ein galluogi ni i ymgysylltu yn effeithiol â'n gilydd yn ein cymdogaethau, gweithleoedd, a chymdeithas y DU.

## GWEDDI

**Bydded i falchder y grymus ildio i gariad.**
**Bydded i ragfarn y breintiedig ildio i gariad.**
**Bydded i gilfachau chwerw ein calonnau ni ildio i gariad.**
**Bydded i oerni ein difrawder ni ildio i gariad.**
**Bydded i gyflwr toredig ein pellhad ni ildio i gariad.**
**Bydded i'n hanwybodaeth fwriadol ni ildio i gariad.**
**Bydded i ni i gyd ildio i gariad, wrth i ni weddïo ar yr Un Sanctaidd sy'n cwmpasu'r holl greadigaeth â chariad. Amen.**

**Diacon Ruth**

Rhan 5

# Sut newid yr ydym ni'n ymrwymo iddo?

Ar gyfer bod yn agored i'r newid y mae Duw yn ei ewyllysio ynom ni, a chydnabod poen gwirioneddol y profiad o allgáu y gŵyr llawer o fewn yr Eglwys amdano, mae angen i ni ddeall math a maint y trawsnewidiad angenrheidiol. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod Duw yn ceisio Newid Strwythurol, Diwylliannol ac Agweddol, **a fydd, yn ei dro, yn rhoi'r gallu i'r Eglwys fod â llais o ran y materion hyn yn y gymdeithas yn fwy eang.**

**Mae Newid Strwythurol yn golygu** ei bod hi'n rhaid i'r Eglwys adolygu'r ffordd y mae hi'n gweithio yn gyfan gwbl, gan dderbyn bod dulliau o weithio a phennu awdurdod yn y cenedlaethau blaenorol a phresennol wedi allgáu llawer o bobl. Bydd angen gweld symudiadau a newidiadau yn ein polisïau ni a'n trefniadau cyfundrefnol ni (er enghraifft ein dulliau o recriwtio staff). Bydd angen i ni sicrhau y bydd pob llais yn cael ei glywed a bod tryloywder a chyfathrebu da ym mhopeth a wnawn ni.

**Gellir disgrifio Newid Diwylliannol fel newid i'r** 'ffordd y caiff pethau eu gwneud yn y lle hwn'. Bydd angen i bob unigolyn, eglwys, cylchdaith, talaith, a'r Tîm Enwadol fyfyrio ar hynny er mwyn i ni ddeall y gwerthoedd, y daliadau a'r rhagdybiaethau sydd gennym ni. Bydd angen i ni ddysgu ymddwyn, rhyngweithio, gwneud penderfyniadau a chynnal gweithgareddau mewn ffyrdd sy'n ei gwneud hi'n bosibl i amrywiaeth fwy eang o bobl fod â rhan lawn yn Eglwys Dduw.

**Bydd Newid Ymagweddol yn gofyn i bob aelod Methodistaidd fod yn agored i newid yn ei galon, ei feddwl a'i weithredoedd.** Bydd hynny'n cynnwys gwrando a dysgu a herio ein rhagdybiaethau ein hunain. Mae angen i ni gyd gymryd cyfrifoldeb am adnabod ein hofnau, ein rhagfarnau, ein canfyddiadau a'n hymddygiadau dinistriol neu niweidiol ein hunain. Mae angen i ni ddeall am ein gallu ni ein hunain, sut i'w ddefnyddio ar gyfer cynorthwyo a chryfhau, yn hytrach na rheoli a lladd, aelodau eraill o Gorff Crist. Gyda chymorth yr Ysbryd Glân fe allwn ni adlewyrchu Cariad Duw ar gyfer pawb mewn ffordd sy'n ein cyfoethogi ni i gyd.

## GWEDDI

**Arglwydd Iesu Grist, daethost i'r byd, gan wisgo cnawd a byw yn ein plith ni.**
**Roeddet ti'n bwyta gyda phechaduriaid, yn iacháu estroniaid, yn croesawu plant, ac yn cofleidio'r gwrthodedig, ac yn torri pob math o reolau er mwyn pontio yn hytrach na gwahanu.**

**Dysg ni i anwesu'r ffordd y gweithiaist ti yn y byd: a mynd y tu hwnt i ffiniau traddodiad crefyddol, statws cymdeithasol, cenedligrwydd a phrofiad.**

**Dangos i ni sut y gwnaeth dy ras di, dro ar ôl tro, oresgyn a gorlifo goruwch disgwyliadau a ffiniau.**


**Estyn ein dealltwriaeth o'r rhai tu mewn a'r tu allan a chyfeiria o'r newydd ein synnwyr o foesgarwch wrth ein glanhau ni o bob hunangyfiawnder.**

**Dysg ni i weld ein breintiau yn gyfleoedd i wasanaethu anghenion pobl eraill.**

**Dyro dy ras yn ein calonnau, ein cartrefi, ein heglwysi a'n cymdeithas i ddarparu croeso a llety i bawb. Amen.**

**Parchg Ddr Sahr, Llywydd,** Yr Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon 2021/2022

Strategaeth Cyfiawnder Urddas a Chydlyniad gweithio tuag at Eglwys Fethodistaidd gwbl gynhwysol



Rhan 6

# Pa argymhellion sydd yn y strategaeth?

## Mae'r strategaeth yn cynnwys ystod eang o gamau ac argymhellion.

Y rhain yn allweddol yn eu plith nhw:

- Anogaeth i'r Eglwys ddathlu amrywiaeth.
- Gwasanaeth ymateb i wahaniaethu a chamdriniaeth, fel gall pobl ddatgelu sefyllfaoedd o wahaniaethu, niwed neu allgáu a chael eu cefnogi.
- Ymrwymiad i gyfrifoldeb unigol, fel gall pobl ymrwymo i addysg a newid eu hymddygiad ar gyfer bod yn fwy cynhwysol.
- Proses beilot Gwirionedd a Chymod i ganiatáu gwrandawiad i storïau am wahaniaethu ac allgáu ar gyfer dechrau cymodi a newid.
- Hyfforddiant gorfodol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Arweinyddiaeth Fethodistaidd.
- Mabwysiadu camau Gweithredu Cadarnhaol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer pob apwyntiad yn yr Eglwys Fethodistaidd.
- Bydd pob cylchdaith a thalaith yn apwyntio Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gefnogi gweithrediad y strategaeth.
- Penodi pwyllgor Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad ar gyfer goruchwyliaeth barhaus o weithrediad y strategaeth.

Ni all unrhyw un o'r pethau hyn fod yn bosibl heb i ni i gyd, yn Fethodistiaid, weddïo am ein rhagfarnau ni ein hunain ac ymrwymo i'r strategaeth hon er mwyn i bethau newid er gwell.

### GWEDDI

**Dduw pawb, moliannwn di am yr amrywiaeth a geir yn dy Eglwys.**
**Helpa ni i gadw undeb yr Ysbryd yn rhwymau heddwch,**
**I ddathlu ein gwahanol ddiwylliannau a thraddodiadau ysbrydol a llawenhau ein bod ni i gyd wedi ein bedyddio i un Arglwydd.**

**Dyro ras i ni fod yr hyn ydym ni wrth weithio er mwyn undod yn dy Eglwys di. Amen.**

Y Parchg Reynaldo

### GWAHODDIAD

Yr alwad i bob aelod Methodistaidd yw rhannu'r weledigaeth o deithio gyda'n gilydd i'r dyfodol gyda chyfiawnder, urddas a chydlyniad ac ymrwymo i weithredu er mwyn bod â rhan yng ngwaith Duw fel caiff ei ddisgrifio yma. Gwaith sy'n mynd rhagddo yw hwn bob amser – rydym ni'n teithio gyda'n gilydd, wrth ymagor i fod yn bartneriaid â Duw a phob un y mae Duw rhoi galwad iddo. Mae'r gwaith hwn yn dyst trawsnewidiol i'n Duw cariadlon a chyfiawn ni, er mwyn i ni lefaru a byw fel disgyblion i Iesu Grist.

### GWEDDI

**Arglwydd Iesu, rydym ni'n diolch i ti am ein caru ni'n gyfartal. Helpa ni i garu ein gilydd a thrin y naill a'r llall gyda pharch ac urddas. Amen.**

Ryan

Rhan 7

# Cwestiynau ar gyfer ymholiad personol, yn unigol, neu mewn grŵp

1) Wedi darllen y crynodeb hwn o'r strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad, beth yw eich teimladau chi? Beth yw eich ymateb cyntaf iddi? A oes rhywbeth yn y strategaeth yn eich synnu chi? *(Mae eich ymateb cyntaf gonest chi'n bwysig ac fe fydd yn eich helpu chi i wybod pa gamau cyntaf a fydd eu hangen arnoch chi.)*

2) A fu yna adegau pan wnaethoch chi allgáu pobl eraill yn fwriadol drwy eich geiriau neu weithredoedd mewn unrhyw agwedd ar fywyd yr eglwys, ar sail rhagfarn? Neu deimlo eich bod chi wedi eich allgáu gan eraill? Beth ddigwyddodd a sut ydych chi'n teimlo am y peth nawr? Sut allai pethau fod wedi digwydd mewn ffordd arall?

3) A oes unrhyw beth yn hyn a allai wneud i chi adolygu sefyllfaoedd yn y gorffennol a dehongli'r hyn a ddigwyddodd mewn ffordd arall?

4) Mae'r strategaeth yn sôn am yr angen i'r Eglwys ymgymryd â Newid **Strwythurol, Diwylliannol ac Ymagweddol**. Yng ngyd-destun eich eglwys a'ch profiad personol, a allwch chi feddwl am un esiampl o bob un o'r mathau hyn o newid y gallai fod angen iddyn nhw ddigwydd er mwyn i'r strategaeth fod yn llwyddiannus?

Os ydych chi'n hoffi ymateb mewn ffordd greadigol, efallai y gwnewch chi ystyried:

- Murlun gan bawb o ddarluniau pethau sy'n arbennig iddyn nhw o'u cefndir a'u diwylliant eu hunain
- Prosiect gelf ar y cyd
- Arddangosfa ffotograffiau lle mae pawb yn cyfrannu sawl llun o ddiwrnod 'arferol' o'u bywydau nhw bob dydd
- Dathliad o fwyd 'yr aelwyd'
- Unrhyw fath o ddathliad neu ŵyl o amrywiaeth gyfoethog eich cymunedau chi, yn yr eglwys ac yn y gymuned yn fwy eang

Fe allech chi ddefnyddio rhywfaint o'r dathliad yn rhan o'ch addoliad gyda'ch gilydd.

## GWEDDI

**Dduw pawb, maddau i mi am gulni fy ngweledigaeth i; y rhagfarnau cudd sy'n fy arwain i ddiystyru eraill yn anaddas ar gyfer dy deyrnas di; y dyhead i'th hawlio ar fy nghyfer fy hunan a'th lunio di ar ddelw sy'n dy wneud yn gyfaill cyfforddus i mi.**

**Fy unig obaith yw gallu trawsnewidiol dy gariad di a all ddryllio fy nelwau anghynwysol ohonot ti, agor fy nghlustiau i her dy lais a rho ddealltwriaethau newydd i mi o hyd, lled a dyfnder dy gariad di.**

**I ti, mae pawb yn werthfawr ac rwyt ti'n galw ar bawb – hyd yn oed ar ddisgybl amherffaith fel y fi. Amen.**

Keith

Rhan 8

# Cyfleoedd i weithredu

## Dyma rai ffydd y gallem ni eu defnyddio nhw i roi'r strategaeth hon ar waith.

- ### Gweddïwch

  ... dros Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant eich talaith chi a'r tîm

  ... dros waith Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad yn eich cylchdaith a'ch eglwys chi

  ... drosoch eich hunain wrth i chi wella o unrhyw ddoluriau neu allgáu blaenorol

  ... am faddeuant am anafu, diystyru neu wahaniaethu yn erbyn unrhyw un

  ... drosoch eich hunain yn unigolion, i allu llewyrchu cariad Iesu Grist a'i barch at bobl o bob math

  ... dros yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain wrth i ni gyflwyno argymhellion y strategaeth, gan weithio tuag at gyfiawnder, urddas a chydlyniad.

### GWEDDI

**Dduw sy'n gwahodd pobl, helpa ni i weld bod gan bob unigolyn le yn dy bresenoldeb di.**

**Maddau i ni pan fyddwn ni'n ceisio cyfyngu ein cyfeillgarwch i'r rhai sy'n debyg i ni o ran eu golwg, eu hymddygiad, a'u cred.**

**Trwy dy Ysbryd Glân a thrawsnewidiol, symud ni oddi wrth allgáu i gynhwysiant,**

**oddi wrth godi muriau i adeiladu pontydd, o ddifaterwch at gariad hollgynhwysol.**

**Yn enw Iesu Grist, ein Gwaredwr. Amen.**

**Y Parchg Sonia**, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd 2021/2022

- ### Rhoi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar yr agenda

Cytunodd Cynhadledd Fethodistaidd 2021 mai, "Er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn effeithiol ym mhob maes o fywyd Methodistaidd, dylai eitem sy'n ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fod ar bob agenda Fethodistaidd, yn holi: 'A yw ein cenhadaeth a'n gweinidogaeth yn adlewyrchu ein hymrwymiad Methodistaidd i fod yn Eglwys Fethodistaidd gwbl gynhwysol (yn ôl y Strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad)?'" Defnyddiwch y geiriau sy'n fwyaf addas i chi, ond mae'n rhaid cael cwestiwn ynglŷn â'n dulliau ni o fod yn ffyddlon i'r alwad i fod yn ddisgyblion sy'n dilyn Iesu Grist.

Fe allwch chi sicrhau bod y gwaith hwn ar agendâu bywyd eich eglwys chi ac eglurwch ei bod hi'n rhaid ei ychwanegu os nad yw'n bresennol. Dechreuwch feddwl wedyn beth fydd ystyr hyn a pha sgyrsiau a fydd yn rhaid eu cynnal nhw gyda'ch gilydd yng nghynulleidfa'r eglwys gyfan neu bwyllgor y gylchdaith.

- ### Defnyddiwch y cwestiynau hyn tan eu bod nhw'n mynd yn ymateb normal i chi pan ofynnir i chi wneud rhywbeth:

  - A fyddwn i'n cyfrannu at amrywiaeth y tîm hwn?
  - Pwy arall sydd ar y tîm hwn?
  - Pwy arall sydd â rhan yn y grŵp hwn?
  - Pwy arall sydd â rhan yn y darn hwn o waith?
  - Pa safbwyntiau eraill a allai fod?
  - Pwy allai rannu'r swydd hon gyda mi?
  - A oes rhywun y gallwn i ei holi ynglŷn â ffyrdd eraill o wneud hyn?
  - A ddylwn i gamu yn ôl oddi wrth y gwaith ar gyfer gadael i rywun arall gyflawni fy ngwaith i?
  - Pwy allwn i ei annog i gymryd y gwaith hwn a'i wneud yn ei ffordd ei hun?

Wrth i ni fynd 'yn ein holau' at lawer o ddulliau o fywyd eglwysig ar ôl y pandemig, ac wrth i ni ddatblygu patrymau newydd i'n ffyrdd ni o weithio, fe allem ni neilltuo mwy o amser i wrando yn ofalus a thrafod gydag ystod fwy eang o bobl. Mae gweithio ar y cyd yn cymryd mwy o amser ond pobl Dduw ydym ni bob yr un.

## GWEDDI

**Arglwydd pawb ohonom, diolch i ti am ein gwahodd ni i eistedd wrth fwrdd dy ras.**
**Rydym ni'n cyfaddef ein bod ni ychydig yn nerfus, er hynny, ynglŷn â rhai sy'n eistedd wrth ein hymyl ni. Mae rhai ohonyn nhw'n ein gwneud ni'n anghyfforddus, yn arbennig y rhai sy'n ein hatgoffa ni am ein harferion drwg ein hunain. Fel meibion Sebedeus, fe fyddai hi'n well gennym ninnau eistedd wrth dy ymyl di.**

**Maddau i ni, Arglwydd, am i ni ddymuno aildrefnu eisteddleoedd, a helpa ni i adnabod dy bresenoldeb di ym mhawb o'th blant. Amen.**

Y Parchg Bonni-Belle

- ### Ystyriwch pa brofiad bywyd yn arbennig yr ydych chi'n cael y drafferth fwyaf i'w amgyffred.

  Sut allech chi ddeall rhagor am feysydd bywyd lle gwelwch chi fodolaeth eich rhagfarn unigol?

  Os oes yna bobl nad ydych chi'n eu hadnabod nhw'n dda iawn, sut allech chi ddysgu mwy am eu profiadau nhw?

- ### Rhannwch y newyddion da!

  Siaradwch â phobl eraill am y strategaeth hon a rhowch anogaeth i'ch gilydd i aros ac ystyried cyn gweithredu neu wneud penderfyniadau. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar-lein yn gynnar yn 2022.

  Dywedwch wrth bobl y tu allan i'ch eglwys chi pam mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, am eu bod nhw'n bwysig yng ngolwg Duw, a sut rydym ni'n ceisio bod yn eglwys o Gyfiawnder, Urddas a Chydlyniad ar gyfer yr holl bobl.

## GWEDDI O YMRWYMIAD

**Dduw pob daioni, gras a chariad, trawsnewid ni a'th Ysbryd Glân.**
**Yn yr Eglwys Fethodistaidd boed i ni drysori unigrywiaeth pawb,**
**pob un ar dy ddelw di. A boed i mi ymrwymo, unwaith eto, heddiw, i ddilyn ffordd Iesu Grist:**

**Helpa fi wrth i mi geisio byw mewn ffordd sy'n ceisio cyfiawnder. Helpa fi i drin pobl eraill gydag urddas yn fy ymgyfarfyddiadau, sgyrsiau, a chydberthynasau.**
**Helpa fi i sefyll mewn cydlyniad gyda Methodistiaid sy'n wahanol i mi,**
**gan gynnwys y rhai ar yr 'ymylon', er mwyn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.**
**Helpa fi i ddysgu wrth i mi wrando.**

**Bydded i'r Eglwys Fethodistaidd arddangos dy gariad mawr yn ein bywyd ni gyda'n gilydd.**
**Bydded i ni fagu hyder wrth i ni gael ein trawsnewid yn gymdeithas o gyfiawnder.**
**Bydded i ni lewyrchu Ysbryd Crist yn ein cariad ni tuag at dy holl bobl di.**
**Dyro i ni dy ddaioni, a'th ras, a'th gariad yw ein gweddi ni, Amen.**

Rhan 9

# Astudiaeth Feiblaidd: Safbwynt arall

Yn aml, rydym ni'n edrych ar bethau o un safbwynt yn unig, yn arbennig felly os ydym ni wedi bod o'r farn honno ers amser maith. Mae'r 'diffyg gweledigaeth' ysbrydol ac emosiynol hwn yn cau ein llygaid ni i'r hyn allai Duw fod yn ei ewyllysio ym mywydau pobl eraill ac mae'n ein rhwystro ni rhag dathlu cariad Duw yn ei holl lawnder bywiol.

Pan fyddwch chi'n astudio'r Beibl, ar eich pen eich hun neu gydag eraill, gofynnwch i Dduw roi gweledigaeth arall i chi, i fwynhau edrych ar bethau o safbwynt arall. Mae hwn yn ymarfer y gellir ei ddefnyddio gyda llawer o rannau o'r Ysgrythur, ac fe nodir rhai a allai fod yn fan cychwyn da yma:

| | |
|---|---|
| Mathew 18:1-7 | Iesu yn croesawu plentyn |
| Luc 6:1-5 | Disgyblion Iesu yn torri Cyfraith y Saboth |
| Luc 7:2-10 | Iesu yn iacháu gwas canwriad |
| Luc 7:11-17 | Iesu yn cyfodi mab y weddw |
| Luc 7:36-50 | Gwraig yn eneinio Iesu |

Dychmygwch sut fyddai hi arnoch chi pe byddai pawb yn eich gwrthod chi heblaw am Iesu. Sut fyddech chi'n ymateb i'r neges? Sut fyddech chi'n ymateb i weithredoedd a geiriau Iesu? Wrth edrych ar bethau o safbwynt arall fe welwn ni weithiau ein bod ni'n deall mwy, rhywbeth na welsom ni o'r blaen efallai.

Rydym ni'n dysgu mwy am sut mae Duw yn trawsnewid gwahanol fywydau. Rydym ni'n deall mwy am ein gilydd a pham mae pob un ohonom ni'n ymateb yn ein ffordd unigol, os ydym ni'n cytuno â'n gilydd neu beidio. Drwy gyfrwng hyn y mae Duw yn agor ein llygaid ac yn ein helpu i ddysgu.

Efallai y byddwch chi'n rhoi cynnig ar yr ymarfer hwn yn eich eglwys neu yn eich cylchdaith chi, trwy ddarllen rhannau o'r Beibl a gofyn i bobl rannu eu hatebion nhw. Mae rhannu gyda'ch gilydd fel hyn yn debyg iawn o amlygu sut y gall un rhan o'r Ysgrythur effeithio ar bawb mewn ffordd wahanol.

- Pa gyswllt sydd rhwng y rhan honno â phrofiadau bywyd?
- Pa deimladau a gaiff eu cynhyrfu?
- Pam ydych chi'n ymateb yn y ffordd honno?
- Pa neges a all fod yma i'r eglwys gyfan neu'r gylchdaith ei chlywed hi?

## GWEDDI

**Dduw pob haelioni, yn dy deyrnas ddiderfyn y mae'r holl greadigaeth yn ymlochesu.**

**Diolchwn i ti am wahoddiad diamod i fod yn rhan o'th gorff di.**

**Helpa ni i sylwi ar y rhai y mae eu lleisiau nhw'n rhy wan i'w clywed a'r rhai sy'n byw mewn cornelau anghofiedig yn ein byd.**

**Gweddïwn dros bawb sy'n cael eu hallgáu o gyfoeth dy greadigaeth, yn arbennig y gwledydd hynny lle mae hi'n anodd cael gafael ar frechlyn Covid-19.**

**Helpa ni i ddilyn ymsymudiad dy Lân Ysbryd, sy'n ymestyn yn dragwyddol hyd at ymylon ein bywydau a'n cymunedau ni. Amen.**

**Y Parchg Ddr Paul**

# Dros y flwyddyn nesaf, fe roddir mwy o adnoddau i'ch cefnogi chi gyda'r gwaith hwn

Mae'r Gynhadledd Fethodistaidd wedi cytuno bod sgyrsiau deallus yn allweddol o ran clywed a deall ei gilydd.

Peidiwch â gofidio ynglŷn â'r hyn i'w ddweud, ond gofynnwch i bobl ddweud wrthych chi os ydych chi'n defnyddio geiriau niweidiol ar ddamwain. Pe byddai hynny'n digwydd fe fyddech chi'n gallu gofyn iddyn nhw pam mae'r rhain yn eiriau anodd iddyn nhw. Fe fydd hynny'n ein helpu ni i gyd i ddysgu a meithrin ein dealltwriaeth ni o'r bobl sydd gyda ni ar ein taith Gristnogol.

Gellir gweld y Strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad yn llawn yn: **www.methodist.org.uk/inclusive-mc-strategy**

er mwyn bod â rhan fwy yn y gwaith hanfodol hwn, neu i ofyn unrhyw gwestiwn, cysylltwch â'r Parchg Jill Marsh yn **equality&diversity@methodistchurch.org.uk**

**Ceir rhagor o gymorth mewn dau le arall:**

Ceir y Pecyn Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yma: **www.methodist.org.uk/for-churches/guidance-for-churches/equality-diversity-and-inclusion/edi-toolkit/**

Cynhyrchodd yr Eglwys Fethodistaidd Ganllaw Iaith Gynhwysol sydd i'w gael yma: **www.methodist.org.uk/inclusive-mc-strategy**

Gellir anfon e-bost hefyd at **publishing@methodistchurch.org.uk** neu siaradwch â Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant eich talaith chi.



Yr Eglwys **Fethodistaidd**

Yr Eglwys Fethodistaidd
Elusen Gofrestredig 1132208
© Yr ymddiriedolwyr at ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2022